



Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

'Cogio'

Beth yw hyn?

Cogio (cuckooing yn Saesneg) yw'r enw a ddefnyddir ar y weithred lle mae delwyr cyffuriau yn meddiannu cartref unigolyn diamddiffyn i'w ddefnyddio fel safle i ddelio cyffuriau ohono.

Mae gangiau troseddol yn targedu cartrefi pobl ddiamddiffyn i ddelio cyffuriau ohonynt. Gelwir hyn yn 'cogio' ar ôl arfer y gwcw o feddiannu nythod adar eraill, ac fel arfer does gan ddiodefwyr y trosedd hwn ddim dewis ond cydweithredu a'r troseddwyr.

Mae delwyr cyffuriau yn targedu unigolyn diamddiffyn ac yn cynnig cyffuriau am ddim iddyn nhw yn gyfnewid am ddefnyddio eu cartref i ddelio cyffuriau, ac mewn rhai achosion ar ôl rhoi 'cyffuriau am ddim' iddyn nhw, yn eu gorfodi i ddelio cyffuriau ar eu rhan er mwyn 'ad-dalu' eu dyled gyffuriau.

Mae'r troseddwyr hyn yn dewis eu targed yn ofalus; fel arfer maen nhw'n bobl unig, ynysig sy'n defnyddio cyffuriau eu hunain ac yn bobl y mae'r heddlu yn gwybod amdanynt nhw'n barod. Gall diodefwyr gynnwys pobl hŷn, pobl sy'n dioddef o broblemau iechyd meddwl a chorfforol, merched sy'n weithwyr rhyw, mamau sengl a'r rheiny sy'n byw mewn tloidi. Gall y diodefwyr fod yn gaeth i wahanol sylweddau megis alcohol.

Ar ôl ennill rheolaeth, mae'r gangiau yn symud i mewn ac mae risg o gam-drin domestig, cam-fanteisio'n rhywiol a thrais. Mae plant yn ogystal ag oedolion yn cael eu defnyddio i ddanfoni cyffuriau. Mae'n gyffredin i gangiau gael mynediad i sawl cyfeiriad. Byddant yn symud yn gyflym o un cartref i'r llall gan aros weithiau am ddim ond ychydig o oriau, weithiau am ychydig o ddyddiau neu weithiau fwy.

Mae 'Cogio' yn galluogi troseddwyr i ddelio cyffuriau o eiddo ac allan o olwg yr heddlu yn hytrach nag allan ar y stryd, sy'n gwneud hyn yn opsiwn dymunol iddyn nhw. Wrth ddelio cyffuriau o eiddo mae'n anodd i'r heddlu fonitro'r hyn maen nhw'n ei wneud oherwydd nad ydyn nhw fel arfer yn aros yn hir mewn unrhyw un eiddo.

Mae'r gangiau hyn weithiau hefyd yn defnyddio tai mewn ardaloedd gwledig, gan gynnwys fflatiau a wasanaethir, cartrefi gwyliau, gwestai rhad a pharciau carafanau.

Weithiau bydd oedolion diamddiffyn yn cael eu gwneud yn ddigartref wrth i'r troseddwyr eu gorfodi i adael eu cartref gyda'r gangiau wedyn yn rhydd i werthu cyffuriau yn eu habsenoldeb.

Beth yw arwyddion cogio?

Mae'r arwyddion bod 'cogio' yn digwydd mewn eiddo yn cynnwys:

- Mwy o fynd a dod yn yr eiddo
- Mwy o geir a beiciau y tu allan
- Cynnydd posibl mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mwy o sbwriel yn cael ei adael y tu allan
- Arwyddion o ddefnyddio cyffuriau
- Diffyg ymwelwyr gofal iechyd

Cyswllt:

Os ydych yn meddwl eich bod wedi canfod cartref lle mae cogio yn digwydd neu os ydych yn bryderus am droseddu cysylltiedig â chyffuriau, ffoniwch Heddlu Gogledd Cymru ar 101.

Ffoniwch 999 mewn argyfwng yn unig.

Os nad ydych eisiau siarad yn uniongyrchol gyda'r heddlu, gallwch ffonio elusen Crimestoppers yn anhysbys ar 0800 555 111.

Canlyniadau

- O dan Ddeddf Camddefnyddio Cyffuriau 1971, gellir dedfrydu landlordiaid a rheolwyr i hyd at 14 mlynedd o garchar neu roi dirwy sylweddol iddynt am fod â chyffuriau yn eu heiddo.
- Gellir meddiannu neu fforffedu'r eiddo yn ogystal â'u herlyn am wyngalchu arian.
- Mae'n bosibl y caiff y safle ei gau i lawr ac y caiff y ffenestri eu bordio dan delerau Gorchymyn Cau Eiddo (Adran 76 Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014).

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru

<https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/>